



RHONDDA CYNON TAF

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ddydd Mercher 4 Mawrth 2020 am 4.00pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol:-

Y Cynhorydd M Adams	Y Cynhorydd R Bevan
Y Cynhorydd H Boggis	Y Cynhorydd J Bonetto
Y Cynhorydd S Bradwick	Y Cynhorydd J Brencher
Y Cynhorydd A Calvert	Y Cynhorydd G Caple
Y Cynhorydd A Cox	Y Cynhorydd A Crimmings
Y Cynhorydd J Cullwick	Y Cynhorydd G Davies
Y Cynhorydd J Davies	Y Cynhorydd L De Vet
Y Cynhorydd J Edwards	Y Cynhorydd S Evans
Y Cynhorydd M Forey	Y Cynhorydd H Fychan
Y Cynhorydd E George	Y Cynhorydd E Griffiths
Y Cynhorydd M Griffiths	Y Cynhorydd J Harries
Y Cynhorydd G Holmes	Y Cynhorydd L Hooper
Y Cynhorydd P Howe	Y Cynhorydd G Hughes
Y Cynhorydd P Jarman	Y Cynhorydd G Jones
Y Cynhorydd W Jones	Y Cynhorydd R Lewis
Y Cynhorydd W Lewis	Y Cynhorydd C Leyshon
Y Cynhorydd A Morgan	Y Cynhorydd K Morgan
Y Cynhorydd S Morgans	Y Cynhorydd M Norris
Y Cynhorydd D Owen-Jones	Y Cynhorydd W Owen
Y Cynhorydd S Pickering	Y Cynhorydd M Powell
Y Cynhorydd S Rees	Y Cynhorydd A Roberts
Y Cynhorydd J Rosser	Y Cynhorydd G Stacey
Y Cynhorydd M Tegg	Y Cynhorydd G Thomas
Y Cynhorydd W Treeby	Y Cynhorydd M Webber
Y Cynhorydd D Williams	Y Cynhorydd G Williams
Y Cynhorydd J Williams	Y Cynhorydd T Williams
Y Cynhorydd C Williams	Y Cynhorydd R Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfathrebu
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr R Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng Flaen

126 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Belzak, A. Chapman, A. Davies-Jones, M. Diamond, J. Elliott, S. M. Evans, M. Fidler Jones, A. S. Fox, D. Grehan, G. E. Hopkins, J. James, K. L. Jones, L. Jones, S. Powderhill, S. M. Powell, S. Rees-Owen, E. Stephens, R. K. Turner, L. Walker, M. Weaver, ac E. Webster.

127 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

128 Diweddariad – Bwrdd Adfer ar ôl Digwyddiadau Mawr

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i staff yr Awdurdod Lleol, y Gwasanaethau Brys a'r gymuned am weithio gyda'i gilydd yn dilyn y difrod sylweddol o ganlyniad i'r llifogydd diweddar. Cydnabu garedigrwydd trigolion lleol yn ystod yr amser anodd hwn a dywedodd ei fod yn falch o fyw yn Rhondda Cynon Taf.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'n cyflwyno diweddariad ar y sefyllfa ers i'r tywydd nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen effeithio ar y Fwrdeistref Sirol gan achosi llifogydd mewn cymunedau lleol rai wythnosau'n ôl.

Cafodd yr aelodau wybod bod cyfarfod wedi'i gynnull i baratoi ar gyfer Storm Dennis gyda swyddogion a phartneriaid allweddol fel yr adrannau Cynllunio Brys a Phriffyrdd. Pwysleisiodd Arweinydd y Cyngor nad oedd rhybuddion ymlaen llaw wedi paratoi'r Cyngor ar gyfer y digwyddiadau go iawn a ddilynodd er bod y Cyngor wedi rhoi camau ychwanegol i'r hyn a oedd ei angen ar waith ar y pwynt hwnnw.

Dywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan fod y Cyngor, ers y digwyddiad tywydd mawr, wedi sefydlu Bwrdd Adfer ar ôl Digwyddiad Mawr sydd wedi cyfarfod yn rheolaidd i drafod y broses adfer ar unwaith. Ychwanegodd yr Arweinydd y gallai gymryd rhwng 2-3 blynedd i'r Fwrdeistref Sirol adfer yn llwyr wedi'r difrod.

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint dangosodd yr Arweinydd effaith y llifogydd ar gymunedau ledled y Fwrdeistref Sirol gyda phob un o'r afonydd yn cyrraedd eu lefelau uchaf ers degawdau. Roedd nifer wedi torri eu glannau ac wedi achosi nid yn unig lifogydd dinistriol mewn cannoedd o fusnesau ac aelwydydd, ond hefyd wedi difrodi strwythurau priffyrdd pwysig.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys nifer o ffotograffau a fideos o'r ardaloedd hynny a oedd wedi'u heffeithio fel Ysgol Gyfun Aberpennar, gorsaf reilffordd Aberpennar (lle mae mwy na 400 tunnell o ddeunydd wedi cael ei dynnu o'r safle), Stryd Sion ym Mhontypridd, Parc Ynysangharad a phont droed ym Mhontypridd (a'r difrod i'r Lido a'r ardal chwarae), Nantgarw, Ystad Ddiwydiannol Trefforest a'r Pentre, sef un o'r cymunedau sydd wedi'u heffeithio waethaf.

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor yr wybodaeth ddiweddaraf am ymateb y Cyngor yn syth ar ôl y llifogydd a oedd wedi'u datgan yn 'Ddigwyddiad Mawr' gan Heddlu De Cymru. Derbyniodd Canolfan Alwadau RhCT 1600 o alwadau ac roedd yr

holl staff a oedd ar gael wedi'u hanfon i'r ardaloedd hynny a oedd angen cymorth ar unwaith. Er gwaethaf agor pum canolfan orffwys, dewisodd mwyafrif helaeth y trigolion a oedd wedi'u heffeithio aros yn eu cartrefi neu aros gyda ffrindiau a theulu.

Darparwyd diweddariad gan yr Arweinydd mewn perthynas ag ymrwymiad ariannol y Cyngor i'r trigolion a'r busnesau hynny a oedd wedi'u heffeithio gan y llifogydd, gan roi blaenoriaeth i aelwydydd a busnesau bach. Mae £1.5 miliwn wedi'i ryddhau o'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol gydag ymrwymiad i ryddau £500,000 pellach (mae busnesau mawr yn cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru am gefnogaeth oherwydd maint y problemau sy'n eu hwynebu).

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at fanylion penodol y cymorth ariannol ac ymarferol sydd ar gael i deuluoedd ac aelwydydd fel £500 i aelwydydd sydd wedi'u difrodi ar y tu fewn gan lifogydd (gyda £500–£1,000 arall ar gael gan Lywodraeth Cymru), symud nwyddau/eiddo sydd wedi'u difrodi am ddim, biniau newydd am ddim, pryduau ysgol am ddim am hyd at fis i deuluoedd sydd wedi'u heffeithio a grant gwerth £100 am wisg ysgol i bob plentyn. Mae nifer o fentrau ariannol a llawer o gymorth ar gael hefyd ar gyfer busnesau bach a chanolig. Dywedodd ei bod yn ofynnol i'r trigolion hynny sydd wedi'u heffeithio lenwi'r e-ffurflen bwrpasol ar wefan y Cyngor neu gysylltu â'r staff penodedig am gymorth i gwblhau'r broses gofrestru.

Dywedodd yr Arweinydd y Cyngor fod y dasg o asesu'r difrod i'r isadeiledd ledled y Fwrdeistref Sirol yn mynd rhagddo fel bod modd i waith atgyweirio gael ei wneud cyn gynted ag y bo modd. Rhoddwyd rhagor o fanylion mewn perthynas â'r tirlithriadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r llifogydd, ar hen safleoedd gwastraff glo, ac mewn mannau eraill. Sicrhodd Arweinydd y Cyngor yr Aelodau fod peirianwyr ymgynghori cymwys wedi archwilio holl domenni categori C a D y Cyngor (43 i gyd) a lle bo angen, mae ffrydiau wedi'u hailgyfeirio i leddfur' effaith. Tasg ar unwaith yw llunio rhestr o'r tomenni glo yn y Fwrdeistref Sirol i benderfynu pwy sy'n berchen arnyn nhw neu'n eu rheoli gan fod rhai yn eiddo i Gyngor RhCT, mae rhai yn eiddo preifat ac eraill yn eiddo i Gyfoeth Naturiol Cymru neu'r Awdurdod Glo, cyn asesu eu cynlluniau tymor hir. Daeth i'r casgliad bod angen gwneud hyn mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y camau nesaf yn cynnwys blaenoriaethu'r gwaith atgyweirio a gofyn am bwerau brys i ddymchwel dwy bont (Castle Inn a'r Bont Wen) oherwydd y risg uchel y maen nhw'n ei pheri. Pwysleisiodd bwysigrwydd deall pŵer a maint y difrod y gall stormydd ei achosi, a'u bod yn digwydd yn fwy aml. I gloi, talodd Arweinydd y Cyngor deyrnged i'r staff a wnaeth achub bywydau trwy eu gweithredoedd, a diolchodd iddyn nhw am ei help a'u cymorth parhaus.

Diolchodd Arweinydd yr Wrthblaid i Arweinydd y Cyngor am ei ddiweddariad, cytunodd â'r teimladau yn ei gyflwyniad a chanmolodd staff, contractwyr a'r Gwasanaethau Brys am eu cefnogaeth a'u

gweithredoedd. Roedd y Cynghorydd Jarman yn deall bod yr effaith ar drigolion yn anfesuradwy a chanmolodd ymateb anhygoel y gymuned.

Mewn ymateb i bryder ynghylch statws Cynllun Brys cyfredol y Cyngor ar ei wefan, rhoddodd yr Arweinydd sicrwydd y byddai hyn yn cael ei ddiweddarar ar frys. Cadarnhaodd y byddai adolygiad mewnol mewn perthynas â'r digwyddiadau diweddar yn cael ei gynnal ymhen amser.

Awgrymodd Arweinydd Grŵp y Gynghrair y byddai canolfan ganolog ar gyfer cydgysylltu'r holl weithrediadau pe bai digwyddiad tebyg yn y dyfodol yn galluogi Aelodau Etholedig i dderbyn gwybodaeth a diweddariadau gwell a mwy cyson. Gofynnodd hefyd a fyddai modd cynnwys yr Aelodau lleol hynny o'r ardaloedd sydd wedi'u heffeithio mewn unrhyw gyfarfodydd i drafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol a'r gwersi a ddysgwyd. Cydnabu Arweinydd y Cyngor yr angen am un ganolfan ddynodedig i gynnal gweithrediadau ohoni pe bai argyfwng a fyddai'n hwyluso cyfathrebu ac ymateb cydgysylltiedig yn well.

Ymatebodd yr Arweinydd i nifer o ymholiadau ac adroddodd fod y Cyngor ar hyn o bryd yn proffilio oddeutu 180 o deuluoedd bregus i asesu eu hangen am gymorth ychwanegol. O ran y tomenni glo, dywedodd y Cynghorydd Morgan fod lluo o fesurau ar waith i ail-broffilio'r tomenni a draenio'r dŵr yn hytrach na'u tynnu'n gyfan gwbl gan nad yw hynny'n ymarferol bosibl.

I gloi, pwysleisiodd y Cynghorydd Morgan fod y Cyngor wedi ymateb i'r rhybuddion a oedd ar waith cyn Storm Dennis ac wedi gwneud popeth oedd yn ofynnol bryd hynny. Pwysleisiodd fod y cwlferi wedi methu ond nad oedd y pypiau wedi methu, yn hytrach cawsant eu gorlethu gan y lefelau uchel o ddŵr. Ychwanegodd fod angen cynllun tymor hir ar y Cyngor yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r math hwn o dywydd nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00pm

**Y Cynghorydd G Hughes
Cadeirydd**